

CYLCHGRAWN AR GYFER FFERMIO A CHOEDWIGAETH YNG NGHYMRU

cyswllt FFERMIO



FARMING
connect
cyswllt
FFERMIO

08456 000 813

Safleoedd Arddangos

Gwella perfformiad buches
fagu a menter bîff

Lleihau'r nifer o wyau eilradd

Technoleg synwryddion yn cynorthwyo
i ddarparu arbedion ariannol



Erddeddi Sefydliadol Ewrop ar
Cyflwr Statistegol Gwledol
Erddeddi Sefydliadol Ewrop ar
Cyflwr Statistegol Gwledol
Erddeddi Sefydliadol Ewrop ar
Cyflwr Statistegol Gwledol




Llywodraeth Cymru
Welsh Government

ISSUE 27 - Mai/Mehefin 2020 | www.llyw.cymru/cyswlltffermio

SWYDDOGION DATBLYGU CYSWLLT FFERMIO ...yn darparu cefnogaeth yn lleol

Mae Cyswllt Ffermio wedi creu cynllun darparu digidol er mwyn cadw mewn cysylltiad â'r diwydiant a chynnig yr holl gymorth sy'n bosibl yn ystod y pandemig coronafeirws.

Am wybodaeth ynglŷn â'r gwasanaethau sydd ar gael i chi, cysylltwch â'ch Swyddog Datblygu Lleol heddiw...



1 **YNYS MÔN
ANGLESEY**
Trystan Siôn
07985 379821
trystan.sion@menterabusnes.co.uk

2 **LLŶN AC ERYRI
LLŶN AND SNOWDONIA**
Alan Armstrong
07415 757461
alan.armstrong@menterabusnes.co.uk

3 **MEIRIONNYDD
MEIRIONNYDD**
Eryl P Roberts
07917 895253
eryl.roberts@lantra.co.uk

4 **GOGLEDD CEREDIGION
NORTH CEREDIGION**
Marc Bowen
07985 379887
marc.bowen@menterabusnes.co.uk

5 **DE CEREDIGION
SOUTH CEREDIGION**
Rhianon Davies
07896 837725
rhianon.davies@menterabusnes.co.uk

6 **GOGLEDD PENFRO
NORTH PEMBROKESHIRE**
Rhianon James
07985 379927
rhianon.james@menterabusnes.co.uk

7 **DE PENFRO
SOUTH PEMBROKESHIRE**
Susie Morgan
07867 908193
susie.morgan@lantra.co.uk

8 **DE SIR GÂR
SOUTH CARMARTHENSHIRE**
Gareth Griffiths
07772 694112
gareth.griffiths@menterabusnes.co.uk

9 **GOGLEDD SIR GÂR
NORTH CARMARTHENSHIRE**
Alun Bowen
07896 262736
alun.bowen@menterabusnes.co.uk

10 **DE CYMRU
SOUTH WALES**
Hannah Wright
07984 251190
hannah.wright@menterabusnes.co.uk

11 **SIR FYNWY, TORFAEN A BLAENAU
GWENT / MONMOUTHSHIRE,
TORFAEN AND BLAENAU GWENT**
Lisa Powell
07772 694952
lisa.powell@menterabusnes.co.uk

12 **BRYCHEINIOG
BRECKNOCK**
Gwen Price
07487 254843
gwen.price@menterabusnes.co.uk

13 **MAESYFED
RADNORSHIRE**
Natalie Chappelle
07985 379928
natalie.chappelle@menterabusnes.co.uk

14 **DE SIR DREFALDWIN
SOUTH MONTGOMERYSHIRE**
Elin Haf Williams
07508 867212
elin.haf.williams@menterabusnes.co.uk

15 **GOGLEDD SIR DREFALDWIN
NORTH MONTGOMERYSHIRE**
Owain Pugh
07904 457316
owain.pugh@menterabusnes.co.uk

16 **WRECSAM A FFLINT
WREXHAM AND FLINT**
Jessamy Ashton
07772 694098
jessamy.ashton@menterabusnes.co.uk

17 **DINBYCH
DENBIGH**
Ruth Jones
07985 379904
ruth.jones@menterabusnes.co.uk

18 **CONWY
CONWY**
Guto Owen
07896 996832
guto.owen@menterabusnes.co.uk

Prosiect Safle Arddangos

Safle Arddangos: Bryn, Aberteifi, Ceredigion

Swyddog Technegol: Gwawr Hughes

Teitl y Prosiect: Gwella perfformiad buches fagu a menter biff: dull system gyfan

Cyflwyniad i'r prosiect:

Cedwir 75 o fuchod magu ar fferm Bryn, y rhan fwyaf ohonynt yn Salers, sy'n cael eu croesi â tharw Charolais i gynhyrchu gwartheg stôr. Defnyddir tarw Swydd Henffordd hefyd i gynhyrchu stoc cyfnwid. Bydd y buchod yn lloea yn ystod cyfnod o 10 wythnos o 1 Chwefror ymlaen. Ar hyn o bryd, gwerthir gwartheg stôr mewn marchnadoedd lleol, ond, mae'r ffermwr arddangos, Huw, yn awr yn archwilio dichonolrwydd gorffen y gwartheg yn 18 mis oed ar laswellt, ac yn ddwys, fel teirw biff.

Gyda'r ansicrwydd cynyddol yn y farchnad biff, mae'n holl bwysig i fuchesi magu ganolbwyntio ar ddulliau o wella perfformiad y fuches, ei heffeithlonrwydd a'i phroffidioldeb. Nod y prosiect hwn yw gwella effeithlonrwydd y fuches fagu trwy fonitro a meincnodi perfformiad trwy'r fenter biff gyfan, ac felly, dynodi'r dangosyddion perfformiad allweddol y gellir eu gwella i gael effaith ar broffidioldeb y busnes. Mae'r prosiect hefyd yn anelu at archwilio dewisiadau ar gyfer gorffen biff, yn hytrach na gwerthu gwartheg stôr.

Amcanion y Prosiect:

Amcan allweddol y prosiect hwn yw dynodi meysydd allweddol i'w gwella, trwy fonitro a meincnodi'r elfennau canlynol o'r fuches ar fferm Bryn:

- Cyfraddau tyfu'r lloeau a'r cynnyrch terfynol
- Effeithlonrwydd y fuwch
- Ffrwythlondeb
- Rheolaeth

Y Dangosyddion Perfformiad Allweddol a osodwyd:

- Cynyddu nifer y lloeau sy'n cael eu diddychu i bob 100 o fuchod a drowyd at y tarw o 85% i >90%
- Anelu i bob buwch gynhyrchu llo sy'n 50% o'i phwysau ei hun erbyn diddychu

Diweddariad Prosiect:

Gofynnodd y prosiect am gyngor Hefin Richards, maethegydd, er mwyn penderfynu ar ddichonolrwydd cyflwyno system orffen biff yn y Bryn, yn hytrach na gwerthu gwartheg stôr. Edrychwyd ar y systemau gorffen fel dewis i:

- Gynyddu'r cynnyrch
- Gwneud gwell defnydd o rawn cartref
- Gwella allbwn i bob hectar
- Cynyddu'r cyfraddau stocio
- Rheoli risg TB

Cyfrannodd Liz Genever, arbenigwraig wartheg a defaid annibynnol, hefyd at y prosiect yn y Bryn. Mae Liz yn gweithio ochr yn ochr â'r ffermwr arddangos, Huw, i ddynodi meysydd allweddol i'w gwella, gan ganolbwyntio yn benodol ar: polisiâu bridio, risg afiechyd, llafur, maeth a strategaethau gwerthu.



Ffigur 1. Huw a Meinir Jones



Ffigur 2. Gwartheg Saler Swydd Henffordd yn Bryn



Canolfan Cyfnewid Gwybodaeth Cyswllt Ffermio

Mae'r Ganolfan Cyfnewid Gwybodaeth (KE Hub) wedi ei lleoli yn IBERS ym Mhrifysgol Aberystwyth. Mae ein cydweithwyr yno yn chwarae rôl bwysig wrth roi'r wybodaeth ddiweddaraf o ymchwil wyddonol i ffermwyr a choedwigwyr.

Cyflwyno staff y Ganolfan:



Graddiodd David Cutress o IBERS, Aberystwyth ac yn ddiweddar gorffennodd ei draethawd hir PhD yn ymchwilio i gyfuniadau newydd o gyffuriau a fwriadwyd i dargedu'r parasit amaethyddol, llyngyr yr iau (*Fasciola hepatica*).

Yn ei rôl flaenorol fel rheolwr prosiect ar grŵp ymchwil ffermio manwl gywir yn IBERS, roedd yn rhan o dreialon yn edrych ar synwryddion ar sail symudiadau a'u potensial i roi rhybuddion iechyd ar gyfer lloeau a gwartheg biff a llaeth. Fel cymrawd cyfnewid gwybodaeth yn y Ganolfan, mae wedi bod yn ymchwilio i'r technolegau sydd ar gael ac a fydd ar gael a allai chwarae rôl wrth arloesi yn y sector biff.

Darllenwch ymlaen i weld cipolwg ar rai o'r cynlluniau blaengar sydd, neu a all gael, eu gweithredu wrth i'r diwydiant hwn symud tuag at ddyfodol mwy economaidd a chynaliadwy.

Mae'r galw cynyddol trwy'r byd am fiff yn cael ei gyfuno â mwy o bwyslais ar wella ansawdd y biff a diogelu lles yr anifeiliaid.

Felly gall technolegau edrych ar hwyluso **monitro**, gwella **ansawdd y cynnyrch** ac **atgenhedlu** gwartheg biff.

1. TECHNOLEGAU MONITRO

Gall synwryddion ar sail **LoRaWAN** a **Sigfox** i fesur symudiad, agosrwydd at borthiant a dŵr a GPS wella rheolaeth ar les yr anifeiliaid.

Mae **synwryddion bolws** yn cynnig y gallu i fonitro paramedrau mewnol gwartheg gan gynnwys lefelau cnoi cil ac iechyd cyffredinol gan gynnwys tymheredd a pH y rwmn.

Mae technolegau **adnabod amledd radio (RFID)** gyda manau bwyta ac yfed sydd yn cynnwys clorian yn cynorthwyo i gael y patrymau tyfu gorau a monitro iechyd a lles.

2. TECHNOLEGAU ANSAWDD CYNNYRCH

Mae **system monitro biff** sy'n cael ei datblygu yn cymryd lluniau 3D byw o wartheg i ragfynegi eu pwysau, twf, pwysau carcass a nodweddion gan wella ansawdd y cynhyrchiant a gallai gysylltu â systemau graddio ansawdd newydd fel **BeefQ**.

Mae **technoleg Adlewyrchiad Isgoch Agos â Llaw (NIR4 FARM)** yn cael ei brofi ar ysgarthion gwartheg ar ffermydd i bennu proffil treuliad gwahanol borthiant, gan adael i ddognau porthiant gael eu teilwrio ar gyfer y tyfiant gorau.

3. TECHNOLEGAU ATGENHEDLU

Gallai'r technolegau atgenhedlu at y dyfodol ar gyfer gwella'r diwydiant biff gynnwys; **gwartheg trawsenyddol** (pennu rhyw'r epil), **clonio niwcleaidd ar gelloedd somatig** (cynhyrchu gwell anifeiliaid) a **defnyddio bôn-gelloedd** (gan dargedu rhyw'r epil).

Gall **technolegau canfod gofyn tarw** i wartheg wella llwyddiant atgenhedlu ac sy'n cynnwys systemau fel Moocall HEAT a thagiau clust CowManager sydd yn wasanaethau canfod gofyn tarw sydd ar gael yn fasnachol. Gall y synwryddion yma gasglu data arall hefyd, gan gynnwys lleoliad a gwybodaeth am iechyd ac afiechyd.

Safle Arddangos

Safle Arddangos:

Nantglas, Talog, Sir Gaerfyrddin

Swyddog Technegol: Gwenan Evans

Teitl y Prosiect: Gwella ffrwythlondeb system loea mewn blociau rhanedig

Cyflwyniad i'r Prosiect:

Mae nifer o ffactorau yn cyfrannu at berfformiad da o ran ffrwythlondeb ar y fferm ac nid oes un ateb i wella ffrwythlondeb. Mae'r ffactorau sy'n cyfrannu yn amrywio o brotein ac egni trwy faeth, cyfforddusrwydd a chloffni gwartheg i ddull ffrwythloni artiffisial (AI) gan enwi dim ond rhai. Mae AHDB yn amcangyfrif bod ffrwythlondeb heb fod ar ei orau yn costio £25,000/y flwyddyn mewn buches o 100 sy'n perfformio ar y cyfartaledd, sy'n cyfateb i 3.2c/litr. Mae hyn yn wir o ganlyniad i gollu cynhyrchiant llaeth, llai o loeau, cyfraddau gwaredu stoc uwch a chostau bridio ac iechyd anifeiliaid uwch.

Mae Nantglas yn cael ei rhedeg gan Iwan fel buches loea dymhorol bloc rhanedig, gyda 100 o wartheg yn lloea yn y gwanwyn a 100 yn yr hydref, mewn blociau lloea 12 wythnos yr un. Mae rheoli blociau o 24 wythnos o loea a 24 wythnos o gael tarw yn cymryd llawer o amser ac egni Iwan. Dylai'r cynllun i dynhau'r blociau lloea i gyfnod mwy tynn o 10 wythnos yr un adael i Iwan gael mwy o amser i redeg y fferm a chanolbwyntio ar ffrwythlondeb. Y nod yw cael y buchod yn ôl yn gyflym yn fwy

effeithlon, heb gynyddu'r cyfraddau gwag. Mae Iwan yn awyddus iawn i gyflwyno mwy o dechnoleg i'w ddulliau rheoli i ryddhau ei amser a byddai'n hoffi cyflwyno coleri i ganfod gwartheg sy'n gofyn tarw fel un ffordd o gynyddu'r gyfradd o'r buchod a ganfyddir yn gofyn tarw.

Gall dulliau i ganfod buchod sy'n gofyn tarw chwarae rôl sylweddol mewn buchesi sy'n lloea mewn blociau o ystyried y pwysau i ganfod y buchod mewn cyfnod byr. Ar ôl dweud hynny, oni bai bod y buchod yn iach ac yn dangos eu bod yn gofyn tarw yn glir, ni fydd unrhyw faint o dechnoleg yn helpu. Bydd Kate Burnby, ymgynghorydd arbenigol ar ffrwythlondeb, yn asesu rheolaeth y fferm ac yn cynnig cynllun yn canolbwyntio ar nifer o ffactorau gwahanol sy'n dylanwadu ar berfformiad o ran ffrwythlondeb. Trwy weithredu ac arddangos sut y gall newidiadau bach i sawl agwedd ar reolaeth y fferm wella ffrwythlondeb, bydd yn fodd o ddangos rhai o'r atebion a sut y gellir eu cyflawni.

Amcanion y Prosiect:

Nod allweddol y prosiect hwn yw gwneud gwelliannau i roi hwb i'r % loea chwe wythnos a'r % gyflym mewn chwe wythnos. Gwneir newidiadau i nifer o arferion rheoli gan nad oes un achos unigol sy'n achosi diffyg ffrwythlondeb. Yr amcan yw tynhau'r bloc lloea gan sicrhau bod y gyfradd sy'n wag yn llai na 10%.

Bydd hyn yn cael ei wneud trwy fonitro a meincnodi'r ffactorau canlynol sy'n cael dylanwad yn Nantglas:

- Cyflwyno coleri canfod buchod sy'n gofyn tarw a chynyddu'r gyfradd ganfod
- Lloea heffrod yn gynharach h.y. "rhoi'r pwysau ar y cyfnod cynnar" o ran y patrwm lloea
- Maeth
- Cyfforddusrwydd y fuwch
- Statws afiechyd
- Protocol ffrwythloni artiffisial (AI)

Y Dangosyddion Perfformiad Allweddol a osodwyd:

- Cyfradd loea chwe wythnos o 90% - ar hyn o bryd yn 75%
- Cyfradd gyflym mewn chwe wythnos yn 78% - ar hyn o bryd yn 70%
- Cyfradd heb fod yn gyflym mewn 12 wythnos yn 10% - ar hyn o bryd yn 14%

Iwan Francis - Nantglas



LLINELL AMSER A CHERRIG MILLTIR:

• Proffil fferm yn amlinellu'r sefyllfa bresennol ac yn gosod y nodau

Tachwedd 2019

• Rhoi sgôr cyflwr corff i'r buchod a samplu gwaed i gael gwell darlun o iechyd a maeth y buchod

Ionawr 2020

• Cofnodi yr holl fanylion lloea yn y gwanwyn. Casglu data a'i ddadansoddi am y cyfraddau ffrwythlondeb presennol yn y ddau floc lloea

Chwefror-Ebrill 2020

• Paratoi ar gyfer lloea'r hydref a gwerthuso'r rheolaeth ar y buchod sych a'r rhai sy'n lloea

• Gwneud y newidiadau angenrheidiol i'r fuches sy'n lloea yn y gwanwyn. Cael y buchod yn gyflym yn gynharach trwy well technegau AI, maethiad a gwell esmwythdra i'r buchod

Haf 2020

• Cofnodi'r holl fanylion lloea yn yr hydref. Casglu data a'i ddadansoddi am y cyfraddau ffrwythlondeb presennol yn y ddau floc lloea

Hydref 2020

• Adolygu patrymau lloea gwanwyn 2021 a hydref 2021

• Adolygu newidiadau yn y gyfradd lloea 6 wythnos a'r gyfradd gyflym 6 wythnos. Dadansoddi unrhyw newidiadau ac a oes unrhyw feysydd eraill i ganolbwyntio arny nhw

Haf 2021 – Gwanwyn 2022

Pantyderi – Mapio'r pridd i alluogi rheolaeth fwy manwl ar y tir

Dr Delana Davies, Cyswllt Ffermio - Swyddog Gweithredol Cyfnewid Gwybodaeth


Mae gweithio yn fwy effeithlon trwy ddefnyddio technegau ffermio cyfraddau amrywiol yn dibynnu ar gael gwybodaeth gywir am nodweddion y pridd ar draws yr ardal dyfu i gyd. Erbyn hyn mae'n bosibl defnyddio technegau sganio Dargludedd Trydanol (EC) i fapio yn union sut mae nodweddion y pridd yn amrywio ar draws y cae, ac yna rhannu'r cae yn barthau rheoli ar sail hyn. Bydd samplio strategol ar y parthau rheoli hyn wedyn yn cynhyrchu darlun mwy manwl, y gellir ei ddefnyddio i wneud penderfyniadau ynglŷn â chyfraddau chwalu calch, gwrtaith a hadau amrywiol arno. Bydd hyn yn helpu i lefelu cynnyrch cnwd ar draws y cae, yn golygu bod maetholion yn cael eu defnyddio yn fwy effeithlon ac yn fwy cyfeillgar yn amgylcheddol.

Mae 40ha o laswelltir a 60ha o dir tyfu grawn wedi cael eu mapio ar fferm Pantyderi, gan greu parthau rheoli pridd ym mhob cae. Mae'r parthau hyn wedi cael eu dadansoddi ar gyfer ffosffad (P), potasiwm (K), magnesiwm (Mg) a pH yn ogystal â gwead laser i roi gwerth absoliwt i'r math o bridd. Lluniwyd cynlluniau rheoli maetholion ar gyfer pob cae sydd wedi ei fapio sydd yn awr yn cael eu defnyddio ar gyfer chwalu maetholion a chalch mewn cyfraddau amrywiol. Gwneir y defnydd mwyaf o dail ar sail gwellt oddi wrth y gwartheg biff ar y fferm ar gyfer y sylfaen o P a K.

Trwy ddefnyddio mapio'r pridd llwyddwyd i gael arbedion yn y calch a chwalwyd ar y glaswelltir a'r tir â'r trwy ddefnyddio chwalu calch ar gyfradd amrywiol (Tabl 1).

Cyfradd	Glaswelltir		Tir Âr	
	Cyson	Amrywiol	Cyson	Amrywiol
Calch (tunnelli)	182.1	171.3	170.0	146.0
Cost (£)	5,463	5,139	5,100	4,380

Tabl 1. Arbedion wrth chwalu calch gan ddefnyddio chwalu calch cyfradd amrywiol



Ffigwr 1: Map hadau amrywiol ar gyfer farlys gwanwyn ar gyfer dau gae cyfagos

Bydd defnyddio'r wybodaeth mapio pridd i dyfu cnwd o farlys gwanwyn yn cael sylw mewn arbrawf gan ddefnyddio dau gae cyfagos o'r un maint a gyda phridd tebyg. Bydd un yn cael ei reoli ar sail cyfradd gyson o ran pob mewnbnw a'r llall ar sail cyfradd amrywiol. Bydd hyn yn cynnwys hau hadau ar gyfradd amrywiol lle bydd y mathau gwaelach o bridd neu ardaloedd problemus o'r cae yn cael cyfraddau hadau uwch i geisio cysoni cynnyrch y cnwd ar draws y cae (Ffigwr 1). Bydd mapiau digidol yn cael eu rhoi i'r contractwr hau ar gof bach sy'n cysylltu trwy system GPS y tractor i roi gwybodaeth i ddril sy'n hau ar gyfraddau amrywiol. Bydd datblygiad y cnwd yn cael ei fonitro trwy'r cyfnodau tyfu gan arwain yn y pen draw at gymharu cynnyrch y cnwd y gellir ei gynaeafu.



Lleihau arferion drwg mewn uned foch - pwysigrwydd cynllunio iechyd y genfaint i sicrhau iechyd a lles

Dafydd Owen, Cyswllt Ffermio - Swyddog Technegol Coedwigaeth a Moch

Ers yr hydref, mae Cyswllt Ffermio wedi bod yn gweithio'n agos gyda Paul a Sam Barcroft-Jones a'r milfeddyg lleol, Eddie Devlin o Filfeddygon Bodrwnsiwn, i leihau arferion drwg yn eu huned foch fasnachol yn Ynys Môn. Uned fridio 210 o hychod dan do o fagu i besgi yw Llwyn yr Arth sy'n gwerthu tua 5,200 o foch wedi eu magu yn flynyddol. Gwerthir y moch yn 22-23 wythnos oed yn 75-80kg ar y bach.

Ym Mehefin 2019, eithriwyd sinc a chopr o ddogyn y moch i baratoi at waharddiad arfaethedig yn y dyfodol ar yr elfennau hyn mewn bwyd moch. Yn dilyn hyn, mae achosion o ddigwyddiadau yn gysylltiedig ag arferion drwg, e.e. brathu cynffonau a chnoi, wedi cynyddu'n sylweddol. Cred Paul a Sam mai cadw sinc a chopr o'u porthiant oedd yn achosi'r cynnydd hwn yn yr achosion. O ganlyniad, cynyddodd y dyddiau hyd eu lladd o 10-15 diwrnod yn y moch oedd yn dioddef. Mae'r defnydd o wrthfotig hefyd wedi cynyddu'n sylweddol o ganlyniad.

Un o amcanion y prosiect oedd gwella'r ddealltwriaeth o statws iechyd y genfaint. Yn ychwanegol at gynllunio iechyd y genfaint bob chwarter, dynodwyd dau fochyn oedd yn cael eu pesgi ag anafiadau yn gysylltiedig ag arferion drwg, salwch neu yn dangos arferion drwg a'u tynnu o'r genfaint. Cynhaliwyd profion, gan gynnwys post mortem gan Ganolfan Wyddoniaeth Filfeddygol Cymru, i ddynodi a oedd unrhyw broblemau iechyd sylfaenol yn achosi'r arferion drwg. Dangosodd canlyniadau'r profion bod y ddau fochyn yn dioddef o niwmonia ensöotig ac roedd gan un berfeddyn mawr chwyddedig a mwcws wedi tewychu.

Wrth ymateb, ailgyflwynwyd sinc yn nognau'r moch sy'n tyfu. Yn ychwanegol, newidiwyd y brechlyn i'r perchyll gyda'r nod o leihau'r briwiau i'r ysgyfaint. Brechwyd y perchyll i gyd yn 7 diwrnod oed yn hytrach na 14, gyda'r nod o gael imiwnedd yn gynharach. Ers i'r newidiadau yma gael eu gwneud, nid yw brathu bellach yn broblem a gwelwyd gostyngiad sylweddol yn y gwrthfotig â ddefnyddiwyd i drin anafiadau neu salwch yn gysylltiedig ag arferion drwg. Ond, ystyri'r mai atebion tymor byr yw'r rhain i'r broblem, felly, bydd dewisiadau gwahanol yn lle'r sinc yn y diet yn awr yn cael eu harchwilio.

Safle Arddangos

Safle Arddangos: Dolygarn, Llanbadarn Fynydd, Llandrindod, Powys

Swyddog Technegol: Elan Davies

Teitl y Prosiect: Dewisiadau porthiant gwahanol i wella cynhyrchiant a lleihau effaith amgylcheddol ar fferm yr ucheldir

Cyflwyniad i'r prosiect:

Mae pwysau cynyddol ar fusnesau fferm i leihau costau, yn ogystal â phwysau ychwanegol i leihau eu heffaith ar yr amgylchedd. Gall costau porthi anifeiliaid trwy'r gaeaf fod yn ddrud iawn, felly, mae lleihau'r cyfnod dan do trwy borthi cnydau bresych yn cael ei weld yn ffordd effeithiol o leihau costau porthiant i ffermwyr da byw. Mae newid hinsawdd yn cael effaith sylweddol ar ddeusiadau porthiant hyfyw, yn benodol, mae'r pridd a gollwyd oddi ar lawer o ffermydd y gaeaf hwn wedi bod yn ddigynsail. Yr anfantais o dyfu cnydau bresych yw'r risg o lygredd (dŵr yn llifo oddi ar dir) a'r colli cynhyrchiant oddi ar yr ardal yn ystod y tymor cynnar pan fydd porfa mor werthfawr i fenter ddefaid.

Mae'r pwysau pori ar dir agos at y tŷ ar fferm ucheldir/fynydd yn y gwanwyn yn drwm, a bydd colli mynediad at gae cynhyrchiol yn ystod yr

amser hwn oherwydd bod y pridd yn foel yn dilyn cnwd bresych yn arwain at broblem ac yn costio i'r busnes. Byddai cnwd fyddai'n gallu gorffen ŵyn yn hwyr yn y tymor sydd mor gyffredin yn yr ucheldir a'r mynyddoedd, ynghyd â'r gallu i atal neu leihau symudiad pridd a dal dŵr, a chynhyrchu dewis pori ar gyfer y gwanwyn yn gam mawr ymlaen mewn cymhariaeth â dewis traddodiadol tebyg i faip sofl.

Amcanion y prosiect:

Nod y prosiect hwn yn fferm Dolygarn yw ymchwilio i gnydau gaeafu gwahanol mewn cymhariaeth â system cnwd bresych gonfensiynol (maip sofl neu swêj) i liniaru'r risg o golli pridd a maetholion, lleihau'r effaith ar ansawdd dŵr a sicrhau cynhyrchiant y fferm yn y dyfodol.

Prif amcan y prosiect yw dangos manteision posibl o ran angori pridd a chadw maeth cnwd yn seiliedig ar laswellt yn hytrach na chnwd bresych gaeaf. Bydd y prosiect hefyd yn cofnodi perfformiad anifeiliaid a'r dwyster stocio o ddefnyddio cnwd glaswellt/codennau a bresych a fydd hefyd yn rhoi porfa yn y gwanwyn yn ystod y pwysau mawr o ran cyfraddau stocio, toriad o silwair dros yr haf a chyfle i ail-hadu yn yr hydref pan fydd y pwysau pori yn llai a'r tywydd yn fwy ffafriol.

Y Dangosyddion Perfformiad Allweddol a osodwyd:

- Lleihau costau gaeafu
- Lleihau'r pridd a'r maetholion sy'n rhedeg oddi ar y tir
- Cynyddu cyfanswm a'r defnydd o'r glaswellt a dyfir (DM/ha) o 10%
- Gwellu pwysau terfynol a dyddiadau gorffen ŵyn gyda gwell dewisiadau o ran pori



James Powell, Dolygarn



LLINELL AMSER A CHERRIG MILLTIR:

- Dynodi'r caeau ar gyfer gwaith prosiect
- Derbyn statws maeth y pridd yn sgil Cynllun Rheoli Maetholion neu gymryd samplau ar gyfer statws gwaelodlin

- Argymhell mewnbyn o faetholion ar gyfer cnydau
- Archebu hadau ar gyfer 9 erw o gnydau bresych ac 14 erw o gymysgedd rhygwellt Eidalaid, meillion a chêl
- Dynodi ardal reoli porfa tymor hir

- Gwaith troi a hau'r cnwd

- Monitro tyfiant y cnwd ac agronomeg
- Cofnodi cynnyrch cyn pori
 - Profi efelychwyr glaw
- Adeiladu rhwystrau i atal pridd rhag rhedeg
- Codi ffens drydan ar gyfer y system bori

- Cofnodi'r nifer o ddefaid sy'n pori
- Cofnodi perfformiad y stoc
 - Symud ffensys
- Casglu data am unrhyw beth sy'n rhedeg oddi ar y tir
 - Cymariaethau efelychwyr glaw

- Parhau i gofnodi lefelau stocio ar gnydau
- Cofnodi cynhyrchiant porthiant a pherfformiad yr anifeiliaid
- Parhau i fonitro'r pridd a'r maetholion a gollir
- Dadansoddi'r lefelau o faetholion a gollwyd o'r pridd, gan gynnwys y ffigwr nitradau

- Casglu gwybodaeth a chynhyrchu adroddiad
- Nodi unrhyw ganfyddiadau amgylcheddol ac economaidd wrth gymharu'r cnydau

- Gallai prosiect pellach wedyn edrych ar addasrwydd rhywogaethau glaswellt ar gyfer porfa dymor hir ar uned heriol ar yr ucheldir lle mae'r pridd a'r hinsawdd yn waelach.

Mawrth 2020

Ebrill 2020

Mai/Mehefin 2020

Mehefin – Tachwedd 2020

Tachwedd – Ionawr/Chwefror 2020-2021

Chwefror – Mai 2021

Mehefin/Gorffennaf 2021

Gorffennaf 2021-2022

Lleihau'r nifer o wyau eilradd yn y Wern

Cath Price, Cyswllt Ffermio - Swyddog Technegol Dofednod

Mae safle arddangos dofednod Cyswllt Ffermio, fferm y Wern, wedi bod yn archwilio sut y gellir lleihau'r nifer o wyau eilradd, trwy ddefnyddio technoleg synwryddion. Roedd y cynllun treialu yn monitro effaith cludo'r wyau o'r blwch nythu i'r ardal bacio.

Er mwyn mesur yr ergydion, defnyddiwyd y ddyfais CracklessEgg™. Mae'r ddyfais, a gyflenwyd gan Lloyd's Animal Feeds, ar siâp wŷ ac mae nifer o synwryddion ynddi sy'n mesur effaith y grym y mae wŷ yn ei brofi wrth gael ei gludo. Cysylltir y ddyfais trwy Bluetooth â dyfais dabled, sy'n cynhyrchu darlenniadau byw wrth i'r ddyfais deithio ar hyd y belt wyau.

Dangosodd yr ymarfer, trwy ddefnyddio dyfais i nodi'r ardaloedd lle'r oedd yr wyau yn cael eu taro fwyaf ac yna gwneud addasiadau syml i'r ardaloedd hynny i leihau'r nifer o wyau eilradd, y gellid gwneud arbedion ariannol sylweddol. Ar sail pris cyfartalog wŷ wedi ei raddio o tua 86c y dwsin, byddai 1% o wyau eilradd yn cyfateb i werth ariannol o 0.655c y dwsin. Os yw pob aderyn yn dodwy 26 dwsin o wyau ym mhob cylch, mae 1% o wyau eilradd yn cyfateb i 17c i bob aderyn. Mewn uned 32,000 o adar, byddai'n golygu arbed £5,449.60. Efallai y gellid gwneud arbediadau ychwanegol ar ffurf cyflogau hefyd oherwydd yr amser sy'n cael ei arbed yn graddio'r wyau ar y fferm gan y byddai llai o amser yn mynd i lanhau.

Roedd yr enghreifftiau o addasiadau a wnaed yn ystod yr ymarfer hwn yn cynnwys tynhau beltiau, lleihau cyflymder y trosglwyddo, gwastatáu platiau trosglwyddo ac ychwanegu allwryddion plastig. Trwy dynhau'r belt ar y pwynt trosglwyddo cyntaf, lleihawyd y grym ar wyau o tua 60 (G) i 20 (G). Trwy leihau cyflymder y belt fe leihawyd y grym ar wyau hefyd o 50 (G) i 20-30 (G).

Gall canran uchel o wyau eilradd wrth raddio fod, er enghraifft, dros 6%. Mae'r ddyfais yn ddefnyddiol i'r holl gynhyrchwyr wyau ond yn arbennig cynhyrchwyr wyau sy'n profi canran uchel o wyau eilradd o'u hadborth graddio wyau.

Gweler yr adroddiad llawn ar ein gwefan lyw.cymru/cyswlltffermioeinfermydd



Ffigur 1 a 2.
Y ddyfais
CracklessEgg™
yn Wern

STOPIO'N DDIOGEL SAFE STOP

Cyn gadael y cerbyd neu ganiatáu i unrhyw un ddod at y peiriant neu gwblhau gwaith:

Before leaving the vehicle cab or allowing anyone to approach or undertake work on the machine:

1. GOSODWCH Y BRÛC LLAW



1. ENGAGE YOUR HANDBRAKE

2. RHOWCH Y RHEOLYDDION YN NIWTRAL



2. PUT CONTROLS IN NEUTRAL

3. DIFFODDWCH YR INJAN



3. SWITCH OFF YOUR ENGINE

4. TYNWCH EICH ALLWEDD O'R CERBYD



4. REMOVE YOUR KEY FROM THE VEHICLE

MAE "STOPIO'N DDIOGEL" YN ARBED BYWYDAU A BYWOLIAETH



"SAFE STOP" SAVES LIVES AND LIVELIHOODS



Astudiaeth ffermwr llaeth o Gymru yn datgelu sut y mae ffermwyr yr Iseldiroedd yn lleihau'r defnydd o wrthfotig

Bydd lleihau'r defnydd o wrthfotig ar ffermydd llaeth Cymru yn dibynnu ar hylendid da a bioddiogelwch.

Ymwelodd Alec Cowan â'r Iseldiroedd gyda chefnogaeth gan Raglen Cyfnewidfa Rheolaeth Cyswilt Ffermio er mwyn cael gwybodaeth i benderfynu sut y gall leihau ei ddefnydd ei hun o wrthfotig a chynyddu effeithlonrwydd yn ei fuches laeth ym Mlaencwmpridd ger Llandysul.

Yma daeth o hyd i wlad lle mae'r diwydiant llaeth wedi gwneud cynnydd anferth wrth leihau ei ddibyniaeth ar wrthfotigau.

"Y brif neges oedd sylw i fanylion, cysondeb a glanweithdra," dywedodd Mr Cowan.

Dewisodd seilio ei astudiaeth yn yr Iseldiroedd oherwydd mae gan 25% o'i ffermydd llaeth robotiaid mewn cymhariaeth â dim ond 2-3% yn y Deyrnas Unedig.

Roedd y cyfyngiadau tynnach o ran defnyddio cyffuriau a'u hargaeledd i ffermwyr a milfeddygon hefyd o ddiddordeb sylweddol, dywedodd Mr Cowan, a ymwelodd â phedair fferm, y cyfan â systemau ychydig yn wahanol.

Cred bod llawer y gall ffermwyr Cymru ei ddysgu o'r modd y mae ffermydd llaeth yn yr Iseldiroedd wedi addasu i reoliadau gan y llywodraeth.

Nid dim ond y defnydd o gyffuriau sy'n cael ei gyfyngu yn yr Iseldiroedd. Gwaherddir y ffermwyr rhag defnyddio pibell wmbilig i chwalu slyri - rhaid i'r slyri i gyd gael ei chwistrellu i'r pridd fel ffordd o leihau'r effaith ar fywyd gwyllt.

Cyflwynwyd cynlluniau hefyd i leihau cynhyrchu ffosffad, gan gynnwys cap ar faint y buchesi llaeth.

"Ni chaiff ffermydd gynyddu niferoedd eu buchod tu hwnt i'r niferoedd oedd ganddyn nhw yn Hydref 2016 heb orfod talu swm anferth o arian. Mae hyn yn golygu nad yw ehangu yn gwneud synnwyr ariannol," dywed Mr Cowan.

Mae'n gobeithio defnyddio rhywfaint o'r wybodaeth a gafodd yn ei fusnes ei hun, er bod y gwahaniaethau rhwng ei fferm ef a'r rhai yr ymwelodd â hwy yn cyfyngu ar hyn.

Un gwahaniaeth yw'r dopograffeg – mae tir Mr Cowan yn fryniog iawn, ac ar 64 modfedd, mae'r glawiad blynyddol ddwbl yr un ar y ffermydd y bu'n ymweld â nhw.

Ond mae'r astudiaeth wedi procio syniadau am yr hyn y gall ei newid.

Er bod ei system ar hyn o bryd dan do i gyd, mae'n dweud y gall yn awr bori buchod ar ryw bwynt yn y dyfodol.

Ac, i leihau'r angen am wrthfotig, mae'n dweud y bydd yn sicrhau bod glanweithdra

yn flaenoriaeth a bod buchod yn cael eu godro yn union cyn eu sychu.

"Yr hyn y gallwn ei ddysgu yw bod ffermwyr yr Iseldiroedd yn ymdopi gyda llai o wrthfotig a llai o fathau gwahanol o wrthfotig ac yn dal i gael buchod iach, cynhyrchiol," dywed.

Mae llawer yn dibynnu ar yr agwedd 'atal yn well na cheisio ei wella'

"Mae llawer iawn o sylw i fanylion o ran glanweithdra a bioddiogelwch," dywed Mr Cowan.

"Roedd yr holl fuchesi y gwnes i ymweld â nhw yn fuchesi caeedig ac yn defnyddio dull ffrwythlonni artiffisial (AI), felly ni allai unrhyw afiechyd gael ei gludo i'r fferm trwy'r stoc."

Mae ymwelwyr yn cael eu dillad diogelu a'u hesgidiau i leihau'r tebygolrwydd y bydd yr afiechyd yn cael ei drosglwyddo. Gwnaeth iechyd y lloeau argraff ar Mr Cowan ond mae'n dweud bod llawer o hyn oherwydd mai am ychydig wythnosau yn unig y cedwir stoc cyfnewid nad ydyn nhw ar gyfer godro, ac yna roedd llai o loeau ar y ffermydd.

Mae safon yr adeiladau yn dda - slatiau a chorau unigol yn bennaf sy'n hwyluso glendid, ac mae gan yr holl ffermydd y bu'n ymweld â nhw beiriannau awtomatig i gymysgu llaeth.

"Yn gyffredinol mae'r holl siediau wedi eu hadeiladu i'r diben gydag awyru rhagorol a chaeadau awtomatig os bydd y tywydd yn gwaethygu. Bydd hyn yn gwneud llawer iawn i atal afiechyd ond mae wedi gofyn am fuddsoddiad anferth gan y ffermwyr," dywedodd Mr Cowan.

Nid oes marchnadoedd anifeiliaid yn yr Iseldiroedd sy'n golygu bod llai o gymysgu stoc.

Mae milfeddygon yn chwarae rôl wahanol ar ffermydd llaeth yr Iseldiroedd i'r hyn y maen nhw yng Nghymru.

"Mae gan filfeddygon lawer mwy o reolaeth ar y defnydd o gyffuriau ar ffermydd, er enghraifft, milfeddygon sy'n sychu a brechu buchod," dywed Mr Cowan.

"Mae'n ymddangos eu bod yn cael eu galw allan lawer mwy i edrych ar anifeiliaid gwael, mewn cymhariaeth â ffermwyr yn y Deyrnas Unedig sy'n ymdrin â llawer o broblemau eu hunain."



Godro Defaid

Rheoli defaid godro ar gyfer cynhyrchu caws

Y BROBLEM:

Pa ffactorau sydd yn rheoli proffil bacteriolegol llaeth dafad?

NOD Y PROSIECT:

I ymchwilio sut gall y tri ffactor isod y mae modd eu rheoli effeithio proffil bacteriolegol y llaeth ar gyfer cynhyrchu caws heb ei basteureiddio.

1. Brîd y ddafad
2. Cyfnod o fewn y llaethiad
3. Ychwanegu seleniwm at y diet

Y GRŴP:

Alan Jones, Derwen Gam, Pwllheli; Matt Swarbrick, Fferm Henbant Bach, Caernarfon; Colin Keyse, Ty'n y Clwt Uchaf, Bethesda; Carrie Rimes, Cosyn Cymru, Bethesda.

AMSERLEN Y PROSIECT: Chwefror 2019 – Chwefror 2022


Gweithgaredd yn 2019

- Cymerwyd samplau llaeth unigol o 15 dafad Friesland a 15 dafad Lleyl trwy gydol eu cyfnod llaethiad i brofi os mae brîd y ddafad yn cael effaith ar ansawdd y llaeth.
- Ychwanegwyd seleniwm i ddwysfwyd 15 dafad Lleyl arall i brofi os yw'n cael effaith positif ar ansawdd a chyfansoddiad y llaeth.
- Cymerwyd swabiau o 30 o ddefaid i brofi os oes unrhyw gyberthynas rhwng poblogaethau bacteria'r pws a'r trwyn.

Canlyniadau o 2019

- Roedd y mwyafrif o famogiaid sydd â chyfrif celloedd somatig uchel yn cynhyrchu llaeth gyda chyfanswm is o solidau.
- Mae hyn yn dangos fod defaid gyda haint is-glinigol cronig a chyfrif celloedd somatig uchel yn cynhyrchu llaeth o ansawdd is a allai effeithio'n negyddol ar faint o gaws a gynhyrchir.
- Nid oes unrhyw gysylltiad positif i'w weld rhwng samplau bacteriolegol o'r trwyn ac o'r llaeth.
- Mae'r canlyniadau ar gyfer rhoi seleniwm ychwanegol i'r mamogiaid yn amhendiant ar ôl y flwyddyn gyntaf.
- Cafodd grwpiau gwahanol o bacteria eu canfod a fydd yn galluogi ffermwyr i gymryd camau priodol o ran hwsmonaeth er mwyn gwella bacterioleg y llaeth.

Mehefin 2019 – Cyfanswm Solidau Llaeth pob mamog unigol yn erbyn Cyfrif Celloedd Somatig (SCC)



#AmaethTi
#FfermTter

Merched
MEWN AMAETH

Ysbrydoli, ysgogi, galluogi...
Arwain Newid

... yn mynd ar-lein. ...

Dydd Llun 15 Mehefin - Dydd Sadwrn 20 Mehefin

Ymunwch â ni am wythnos llawn sesiynau digidol i ehangu, datblygu ac/neu arallgyfeirio eich busnes

Cyfle i gael:

- trafod gydag arbenigwyr mewn grŵp
- cymryd rhan mewn sesiynau un-i-un
- clywed straeon merched eraill o fewn y diwydiant

Ydych chi'n barod?



FARMING
connect
cyswllt
FFERMIO

08456 000 813



Cyfleoedd i arallgyfeirio i goetiroedd cynhyrchiol

Geraint Jones, Cyswllt Ffermio - Swyddog Technegol Coedwigaeth

Dyrannwyd cyllideb o £8miliwn i'r nawfed rownd Mynegi Diddordeb ar gyfer cynllun Creu Coetir Glastir. Agorodd y ffenestr ar 16 Mawrth 2020 a bydd yn cau am hanner nos ar 12 Mehefin 2020. I ffermwyr sydd â thir ymylol a'u llygaid ar y dyfodol, efallai y byddai'n amser da i archwilio'r ddadl fusnes dros blannu coed. Gall coetiroedd cynhyrchiol gynnig cyfle buddsoddi a ffrwd incwm ychwanegol i fusnes y fferm, gan fod yn gatalydd i ddatblygu mantais fawr o sicrhau dyfodol y busnes i'r genhedlaeth nesaf a thu hwnt.

Mae nifer o fanteision o blannu coed ar y fferm a sefydlu coetir mewn mannau strategol. Gall y manteision yma fod yn rhoi cysgod i anifeiliaid a bydd yn hybu manteision ychwanegol cysylltiedig i gynhyrchiant anifeiliaid a chynhyrchiant cynydau. Beth bynnag eu maint, gall coetiroedd fferm greu manteision i fioamrywiaeth a chynnig ffynhonnell o beillwyr naturiol. Heddiw, mae allyriadau carbon yn uchel ar agenda ffermwyr a choedwigwyr, gall creu coetir newydd gyfrannu at economi carbon isel a helpu busnesau unigol i leihau eu hól troed carbon. Dyma rai o'r nifer o fanteision y gall creu coetir eu cynnig i ffermwyr.

I rai, mae creu coetir yn cael ei weld ar draul cynhyrchiant amaethyddol. Nid yw hyn yn wir ac ni ddylai fod yn wir. Dylai'r ethos o integreiddio coetir fferm i'r busnes fferm ac edrych ar y fferm yn ei chyfanrwydd o ran perfformiad economaidd ac amgylcheddol i gynyddu cynhyrchiant y busnes fod yn flaenaf wrth gynllunio busnes, rhywbeth y mae Cyswllt Ffermio yn ei hyrwyddo.

I unrhyw un sy'n ystyried plannu coed ar y fferm, mae llawer i'w ystyried. Agwedd allweddol yw y gall coedwigaeth ychwanegu gwerth at dir ymylol a thir llai cynhyrchiol ar y fferm. Gan ddbynnu ar amcanion y tiffeddiannwr, os yw'n goetir cynhyrchiol y mae'n ofynnol iddo greu incwm masnachol, mae logisteg mynediad i reoli a chynaeafu coedwigoedd cynhyrchiol ar y brynau yn bwysig iawn. Mae angen cynllunio hyn wrth blannu. Mae graddfa hefyd yn bwysig wrth feddwl am yr elw economaidd o goedwigaeth a rhaid i goetir cynhyrchiol fod yn ddigon mawr i sicrhau ei fod yn hyfyw yn economaidd yn y tymor hir. Gall y broses o gynnal dadansoddiad manylach o'r safle a dynodi syniad o'r costau gael ei wneud gan asiantau coedwigaeth. Mae'n bwysig iawn i ffermwyr gael y cyngor cywir wrth ystyried eu hamcanion. Mae digon o gymorth ar gael ac yn y rownd hon o Greu Coetir Glastir, rhaid i gynllunydd cofrestredig gyflwyno Mynegiant o Ddiddordeb a fydd yn llenwi'r ffurflen a'i chyflwyno ar eich rhan. Gweler <https://llyw.cymru/cynllunwyr-coetir-glastir> am fanylion cynllunwyr coetir Glastir.

Gall swyddogion technegol coedwigaeth a swyddogion datblygu Cyswllt Ffermio hefyd eich cynorthwyo gydag unrhyw ymholiadau.

Rhagwelir y bydd y gofyn am bren yn y Deyrnas Unedig yn treblu erbyn 2050 ac ar hyn o bryd rydym yn mewnforio 75% ohono. Felly mae creu coetiroedd a chynhyrchu pren mewn modd cynaliadwy yn ymrwymiadau allweddol o ran y gadwyn gyflenwi a thargedau newid hinsawdd. I ddyfynnu'r dywediad "yr amser gorau i blannu coeden oedd 20 mlynedd yn ôl – yr amser nesaf at y gorau yw nawr".

Meddyginiaethau Milfeddygol – Cael trefn ar eich cofnodion

Mae'n rhaid i bob ffermwr, neu geidwad anifeiliaid, o dan Reoliadau Meddyginiaethau Milfeddygol 2013, gadw cofnodion cywir o bob meddyginiaeth sy'n cael eu roi i'w hanifeiliaid. Mae hyn yn arbennig o bwysig ar gyfer anifeiliaid sy'n cynhyrchu bwyd, ble y mae'n rhaid ichi gofnodi manylion penodol gan gynnwys:


- ✓ Enw y milfeddyg
- ✓ Enw a rhif batsh y cynnyrch sy'n cael ei ddefnyddio
- ✓ Dyddiad rhoi'r cynnyrch
- ✓ Faint o'r cynnyrch a roddwyd
- ✓ Dull adnabod clir yr anifail/anifeiliaid sy'n cael eu trin
- ✓ Y cyfnod diddyfnu.

Ein dyletswydd ni yw cofnodi unrhyw gynnyrch meddyginiaethol milfeddygol sydd heb gael ei ddefnyddio, gan wneud yn siŵr bod y dyddiad gwaredu, faint o gynnyrch oedd a sut y cafodd y cynnyrch ei waredu.

Ni ddylech ddbynnu ar y milfeddyg sy'n rhoi'r cynnyrch i ddiweddar a chofnodi'r defnydd ohono. Eich cyfrifoldeb chi yw gwirio'r manylion, a diweddar a chynnal cofnodion ble y mae'r manylion ar goll. Mae'n rhaid cadw'r cofnodion hyn am bum mlynedd, yn dilyn gweinyddu neu waredu'r cynnyrch, boed yr anifail yn dal yn eich meddiant, neu wedi ei ladd.

Mae rheoliadau llym hefyd ynghylch y defnydd o fwyd meddyginiaethol a ble y caiff cynnyrch meddyginiaethol milfeddygol ei ychwanegu at fwyd, mae'n rhaid i gofnodion dyddiol gael eu cadw ar y cynnyrch sy'n cael ei ddefnyddio, a'r symiau a ddefnyddir

Dim ond cynnyrch meddygol wedi'i gymeradwyo ddylid ei roi i'ch da byw fel a nodir gan eich milfeddyg. Byddai defnyddio rhai cynnyrch meddyginiaethol, gan gynnwys y rhai hynny gyda chyfnodau diddyfnu estynedig neu faith, yn golygu nad oes modd i'r anifail sy'n ei dderbyn fynd i'r gadwyn fwyd. Dylech drafod y cynnyrch sy'n cael ei ddefnyddio gyda'ch milfeddyg preifat, a sicrhau eich bod yn deall goblygiadau'r cynnyrch yr ydych yn ei roi.



Mae rhagor o ganllawiau ar ddefnyddio meddyginiaethau milfeddygol a'u gofynion cofnodi i'w gweld ar: www.gov.uk/government/collections/veterinary-medicines-guidance-notes-vmgns

Cwrs Hyfforddiant Cyswllt Ffermio:
Defnyddio Meddyginiaethau Milfeddygol mewn modd Diogel
 Mae'r cyfnod ymgeisio am gyllid sgiliau ar agor hyd 17:00 dydd Gwener, 26 Mehefin 2020.
llyw.cymru/cyswlltffermiosgiliauhyfforddiant

Darparwyd yr erthygl gan Swyddfa'r Prif Swyddog Milfeddygol

Ydych chi'n dymuno neu angen i'ch cv ddenu sylw?

Gall amlinellu eich sgiliau a'ch profiad ar gyfer cv neu i gwblhau cais am swydd fod yn dasg anodd. Mae rhai ohonom yn credu bod gennym ormod i'w ddweud, ac eraill, yn enwedig y rhai sydd ar ddechrau eu gyrfa, yn credu nad oes digon i sôn amdano!

Mae Cyswllt Ffermio wedi creu canllawiau dwyieithog ar-lein er mwyn creu cv 'safonol' - un a fydd yn denu sylw darpar gyflogwr am y rhesymau iawn! Neu unrhyw un mewn gwirionedd y mae angen i chi wneud argraff arnynt gyda'ch sgiliau!

Mae'r canllawiau'n rhoi awgrymiadau o le i ddechrau; fformatio; beth y dylid ei gynnwys; trefn y wybodaeth, ac mae'n cynnwys nifer o gynghorion defnyddiol. Mae'n cynnwys cv nodweddiadol ar gyfer gweithiwr fferm yn ogystal â thempled gwag y gellir ei addasu yn ôl yr angen.

Gofynnwyd i ddwy fyfyrwraig amaeth ifanc o Goleg Y Drenewydd, rhan o Grŵp Colegau NPTC, i gwblhau eu cv eu hunain yn seiliedig ar y canllawiau.



Ffigwr 1. Nia Powell yn cryfhau ei cv gyda chefnogaeth gan Cyswllt Ffermio.

Dywedodd Elin Orrells (18) sy'n ffermio gyda'i theulu yn Abermule, Sir Drefaldwyn, bod y

broses o gwblhau'r cv newydd yn dasg eithaf anodd a oedd yn cymryd llawer o amser. Ond ar ôl cwblhau'r broses, mae hi wrth ei bodd gyda'r cv gorffenedig, a dywed fod ei cv 'sylfaenol a diflas' blaenorol wedi diflannu am byth!

"Ar ôl darllen canllawiau Cyswllt Ffermio ar-lein, sylweddolais os na fydda i'n rhoi amser ac ymdrech er mwyn cwblhau fy cv, ni fyddai'n adlewyrchu fy sgiliau, fy nodweddion a'm profiad o gwbl.

"Mae amlinellu'r hyn yr ydych wedi'i ddysgu neu ei gyflawni'n gallu ymddangos yn ffoenuchel, ond os nad ydych chi'n gwneud hynny, gallech fod yn hepgor y wybodaeth bwysicaf oll."

"Trwy ganolbwyntio ar ganlyniadau'r hyn yr oeddwn wedi ei gyflawni a'i ddysgu trwy weithio ar y fferm, drwy gyflawni swyddi allweddol o fewn fy nghlwb ffermwyr ifanc lleol ac ar ran y sir, a thrwy brofiad gwaith, mae gen i eisoes lawer o sgiliau yr wyf yn gobeithio y byddai darpar gyflogwyr yn chwilio amdanynt ac yn eu gwerthfawrogi."



Ffigwr 2. Elin Orrells yn dilyn canllaw Cyswllt Ffermio i gwblhau ei cv.

Mae Nia Powell, sydd hefyd yn fyfyrwr yng Ngholeg Y Drenewydd ac yn 17 mlwydd oed,

yn byw gartref ar y fferm biff a defaid teuluol yn Abaty Cwm Hir ger Llandrindod.

Dywed Nia fod ei cv cyntaf a gynhyrchwyd tra'r oedd hi yn yr ysgol yn 'flodeuog - llawn blychau a delweddau lliwgar', ond roedd yn cyfaddef ei fod yn brin o gynnwys defnyddiol. Ar ôl derbyn canllawiau Cyswllt Ffermio, mae hi bellach wrth ei bodd gyda'i cv newydd sy'n fwy proffesiynol, ac mae'n gobeithio y bydd yn creu argraff ar unrhyw ddarpar gyflogwyr a sicrhau'r cyfweiliad neu'r cyswllt dilynol hollbwysig hynny!

"Mae hi mor hawdd defnyddio'r fformat mwyaf sylfaenol, rhestru'r hyn yr ydych chi wedi'i wneud, ond os byddwch chi'n gwneud hynny, ni fydd pobl yn gwerthfawrogi'r sgiliau penodol y gallwch eu cynnig ar gyfer y swydd yr ydych yn ymgeisio amdani.

"Mae gweld pa mor drefnus a llawn gwybodaeth yw fy cv newydd wedi rhoi mwy o hyder i mi yn fy ngallu a'm sgiliau fy hun.

"Rwy'n credu y byddai unrhyw gyflogwr yn teimlo eu bod yn gwybod yr hyn yr wyf yn gallu ei wneud ac y byddent yn gallu gwneud penderfyniad deallus ynglŷn â sut y buaswn yn gweddu i'w gweithle."




Mae Sue Lloyd-Jones yn Bennaeth Ysgol, Arlwy, Lletygarwch ac Amaeth yng Ngholeg Y Drenewydd. Dywed Sue nad oes un dull penodol sy'n addas i bawb er mwyn llunio cv da, ac mae'n cynghori y dylech ymchwilio'n fanwl.

"Mae dull Cyswllt Ffermio'n rhoi arweiniad a chynghor cynhwysfawr sy'n eich annog i ganolbwyntio ar sgiliau trosglwyddadwy a allai fod o fudd i ddarpar gyflogwr.

"Mae hwn yn adnodd defnyddiol iawn a ellir ei addasu ar gyfer sawl lefel.

"Bydd cwblhau'r cv yn cymryd mwy o amser, ond dylai eich ysbrydoli i edrych y tu hwnt i'r fersiynau 'hawdd' a gobeithio y bydd yn eich cynorthwyo i gyflawni eich nodau personol."

Er mwyn cael mynediad at ganllawiau a thempledi cv Cyswllt Ffermio, ewch i'r dudalen 'Sgiliau a Hyfforddiant' ar www.llyw.cymru/cyswlltffermio



Gweminarau Wythnosol

Ymunwch â ni ac arbenigwyr y diwydiant mewn amrywiaeth eang o weminarau amserol wedi'u hanelu at ddarparu cymorth a gwybodaeth ddefnyddiol i chi yn ystod y cyfnod ansicr hwn. I ymuno â gweminar, cysylltwch â Delyth Evans ar delythevans@menterabusnes.co.uk neu ewch i'n tudalen digwyddiadau ar ein gwefan.



Pryd	Pwnc	Cynnwys	Siaradwr
21/05/20 20:15	Elfennau hybrin	Roedd y prosiect EIP Cymru hwn yn cynnwys deuddeg fferm sydd wedi bod yn ceisio gwella eu cynllunio maethol mewn mamogiaid bridio, gan ymchwilio i anghenion diadell unigol am elfennau hybrin wrth geisio cydbwysu hyn ag achosion tebygol eraill o berfformiad gwael.	Joseph Angell, Milfeddygon y Wern Veterinary Surgeons
21/05/20 12:30	Profion Peiriannau Dynamig	Gwiro'r berthynas rhwng y fuwch a'r peiriant godro. (Gweminar ar gyfer y sector llaeth)	Tom Greenham, Advance Milking
26/05/20 20:00	Amser ail-hadu?	Rhan 1 - Perfformiad y borfa bresennol ac opsiynau ar gyfer gwella	Charlie Morgan, GrassMaster
28/05/20 20:15	Pori manwl gywir ar fferm Erw Fawr	Canolbwyntio ar sut i gynyddu cynnyrch oddi ar borfa gyda buches o wartheg Holstein sy'n lloia drwy'r flwyddyn ar safle arddangos Erw Fawr, Ynys Môn.	Sarah Morgan, Precision Grazing
28/05/20 12:30	Dewis y Leinin Gorau	Sut i ganfod y leinin peiriant godro mwyaf addas ar gyfer eich buches. (Gweminar ar gyfer y sector llaeth)	Tom Greenham, Advance Milking
02/06/20 20:00	Amser ail-hadu?	Rhan 2 - Opsiynau o ran hau dros y borfa: Beth i'w wneud a beth i'w osgoi	Charlie Morgan, GrassMaster
04/06/20 20:15	Gwella ffrwythlondeb system loea mewn blociau rhanedig yn safle arddangos Nantglas	- Beth sy'n batrwm lloea tynn y gellir ei gyflawni? - Cynllunio a gosod nodau - Gwella cyfraddau ffrwythlonni	Kate Burnby, Stock Plus+ Positive Farm Advice
09/06/20 20:00	Prif nodweddion y busnesau sydd yn y traean uchaf	Beth yw'r gwahaniaeth rhwng y busnesau sydd yn y traean uchaf a busnesau eraill? (Pob Sector)	TBC



Cyd-ddylunio'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy i Gymru

Ydych chi eisiau helpu i lywio'r cynllun newydd fydd yn cymryd lle y Cynllun Taliad Sylfaenol presennol?

I gofrestru a dechrau ar y broses o gymryd rhan yn natblygiad Cynllun Ffermio Cynaliadwy i Gymru sy'n addas ar eich cyfer chi a Llywodraeth Cymru, bydd angen i chi gwblhau'r arolwg fydd ar gael hyd nes 30 Mai 2020.

Am ragor o fanylion ac i lawr lwytho a chwblhau'r arolwg, ewch i menterabusnes.cymru/sfs
Os ydych angen cymorth gyda chwblhau'r arolwg, ffoniwch **01970 636 297**



Llywodraeth Cymru
Welsh Government